| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad** | **13 Rhagfyr, 2018** |
| **Teitl** | **Treial Gorfodaeth Stryd** |
| **Aelod Cabinet** | **Cynghorydd Gareth Wyn Griffith** |
| **Pwrpas** | **I ddiweddaru'r Pwyllgor Craffu ar y mater ac i dderbyn argymhelliad ar y ffordd ymlaen.** |

**1. CEFNDIR**

1.1 Ar 19 Ebrill, 2018 bu i'r Pwyllgor Craffu argymell i'r Adran edrych ar 3 opsiwn posib i newid ymddygiad y cyhoedd er mwyn gwella ansawdd yr amgylchedd lleol, gan gynnwys glendid strydoedd.

**2. Y 3 OPSIWN**

(i) Cydweithio gyda Siroedd eraill cyfagos i wella'r ddarpariaeth
(ii) Ail ystyried y lefelau staffio presennol yn yr Uned Gorfodaeth Stryd
(iii) Ehangu'r cydweithio rhyngadrannol lle mae staff o adrannau eraill y Cyngor yn derbyn yr hawl dirprwyedig i orfodi ar y stryd.

**3. DIWEDDARIAD**

3.1 Mae'r Adran wedi bod yn edrych ar y 3 opsiwn yma a chyflwyni'r yr wybodaeth isod fel diweddariad ar y gwaith hyd yma.

3.2 Bu gweithdy cydweithio cychwynnol gael ei gynnal gyda Chyngor Ynys Môn a Satori Lab. Mae cynghorau Ynys Môn a Gwynedd nawr yn bwriadu cynnal ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth mewn ardaloedd peilot yn ystod 2019.

3.3 Rydym wedi mynychu cyfres o gyfarfodydd rhanbarthol Gogledd Cymru er trafod opsiynau cydweithio. Hyd yn hyn mae'r grŵp wedi ystyried trefniadau gorfodaeth, h.y. darpariaeth fewnol neu allanol, codi ymwybyddiaeth a swyddfa gefn canolig. Mae'r drafodaeth yma yn parhau.

3.4 Mae staff Morwrol awdurdodedig (6 mewn nifer) wedi derbyn camerâu corff newydd a chanllawiau. Mae'r gwaith ymchwil cychwynnol hefyd wedi cadarnhau bod gan staff Gorfodaeth Sifil (Parcio) yn Sir Fflint a Wrecsam y pwerau i roi dirwyon am daflu sbwriel. Rydym nawr angen ystyried y posibilrwydd o fodel tebyg yng Ngwynedd.

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu am eu sylwadau ar y diweddariad gan gofnodi y bydd yr Adran yn cyflwyno argymhelliad pellach ar y ffordd ymlaen er mwyn ceisio gwella'r ddarpariaeth i bwrpas sicrhau glendid ac edrychiad ein strydoedd.